PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Polisi Teithio a Thrafnidiaeth

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod ei chyfrifoldeb i hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau effaith amgylcheddol andwyol ei gweithgareddau, ac mae'r Polisi hwn hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiadau Strategaeth 2030: Strategaeth Cynaliadwyedd a Pholisi Teithio a Threuliau Gweithwyr y Brifysgol.

Mae'r Polisi'n annog ac yn cefnogi opsiynau cymudo a theithio cynaliadwy ymhlith ein staff, myfyrwyr, ac ymwelwyr, lleihau allyriadau carbon sy'n deillio o deithio a thrafnidiaeth, gwella hygyrchedd i'n safleoedd a'n cyfleusterau, a hyrwyddo ffordd o fyw iach.

## 2. Amcanion

i. Deall yn well sut mae staff a myfyrwyr y Brifysgol yn teithio ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus trwy gasglu data trwy arolygon teithio a dulliau eraill.

ii. Lleihau Allyriadau Carbon: mynd ati'n weithredol i geisio lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio a thrafnidiaeth, gan ymdrechu i gyflawni allyriadau sero-net yn unol â'n targed ein hunain, yn ogystal â thargedau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol.

iii. Hyrwyddo'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy: annog dulliau teithio cynaliadwy, megis gweithio ar-lein, cerdded, beicio, rhannu ceir a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fel opsiynau amgen i deithio mewn cerbyd un feddiannaeth

iv. Gwella Ffyrdd o Fyw Iach: annog, cefnogi a gwella opsiynau teithio llesol, megis cerdded a beicio, i hyrwyddo gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a lles, a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur.

v. Gwella Isadeiledd a Chyfleusterau: Darparu digon o le i barcio a storio beiciau, cyfleusterau cawod, ac amgylchedd diogel i gerddwyr.

vi. Cynyddu Ymwybyddiaeth ac Addysg o deithio cynaliadwy: codi ymwybyddiaeth ymhlith cymuned y brifysgol am effaith amgylcheddol dewisiadau teithio a thrafnidiaeth, hyrwyddo manteision opsiynau cynaliadwy, a darparu adnoddau addysgol ar arferion teithio cynaliadwy.

## 3. Gweithredu

i. Tracio Teithio: cofnodi archebion trenau, hedfan a llety er mwyn cyfrifo allyriadau carbon y Brifysgol sy'n deillio o deithiau busnes nad ydynt yn cynnwys ceir.

ii. Opsiynau Trafnidiaeth Amgen: hyrwyddo ac annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, megis cerdded, beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus, trwy ddarparu gwybodaeth, mapiau ac adnoddau ar opsiynau teithio amgen ar wefan y Brifysgol ac mewn bwletinau staff a myfyrwyr, a gweithio gydag awdurdodau trafnidiaeth lleol i wella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, a gwella isadeiledd beicio a cherdded.

iii. Rhannu Ceir a Chyd-deithio: hwyluso rhaglenni rhannu ceir a chyd-deithio lle bo'n ymarferol, gan gysylltu unigolion sydd â llwybrau teithio tebyg, a'u hannog i gyd-deithio i leihau nifer y cerbydau sy'n cludo un person yn unig ar y campws.

iv. Cefnogaeth Cludiant Actif: buddsoddi mewn isadeiledd beicio, gan gynnwys cyfleusterau parcio beiciau diogel, gorsafoedd atgyweirio, a lonydd beicio dynodedig, a darparu cawodydd a chyfleusterau newid i gefnogi cymudwyr actif.

v. Cymhellion a Gwobrau: archwilio i gymhellion a gwobrau ar gyfer opsiynau teithio cynaliadwy, megis tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus am bris gostyngol, parcio ffafriol ar gyfer ceir pobl sy’n cyd-deithio, a rhaglenni cydnabod ar gyfer unigolion sy'n dewis dulliau teithio cynaliadwy yn gyson.

vi. Partneriaeth a Chydweithio: cydweithio â chyrff llywodraeth leol, awdurdodau trafnidiaeth, a sefydliadau cymunedol i eirioli dros fentrau trafnidiaeth gynaliadwy, ac i rannu arferion gorau o ran teithio gwyrdd.

**Monitro ac Adolygu**

Bydd y Brifysgol yn monitro ac yn adolygu’r Polisi hwn yn rheolaidd, er mwyn asesu ei effeithiolrwydd ac i nodi meysydd i’w gwella, a bydd yn ymgysylltu â staff a myfyrwyr y Brifysgol i gasglu adborth ac awgrymiadau, gan sicrhau bod y polisi’n parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion cynaliadwyedd esblygol.

Bydd nodau a thargedau mesuradwy penodol yn cael eu cytuno a'u gosod yn flynyddol o amcanion y Polisi, a bydd cynnydd yn cael ei gyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd.

Trwy fabwysiadu’r Polisi Teithio a Thrafnidiaeth hwn, mae’r Brifysgol yn ymrwymo i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy, lleihau allyriadau carbon, a chreu campws iachach a mwy ecogyfeillgar. Ar y cyd, gallwn gyfrannu at ddyfodol mwy gwyrdd, ac ysbrydoli eraill i gofleidio trafnidiaeth gynaliadwy.

**Cymeradwywyd gan:** **Dyddiad: 15/10/2024**

**Yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy i’r Is-ganghellor a Chadeirydd y Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd**

**Polisi Teithio a Thrafnidiaeth**
**Yn dod i Rym ar: 15 Hydref 2024** **Dyddiad Adolygu: 2027**